

Ein hymrwymiad i amrywiaeth

Mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi ymrwmo i adeiladu cymuned staff sy'n amrywiol ac sy'n cael eu gwerthfawrogi, sy'n adlewyrchu amrywiaeth y cyhoedd yn y DU a'r cymunedau rydym yn gweithio ynddynt.

Er mwyn bod yn gynhwysol o dreftadaeth, pobl a chymunedau, gwyddom fod angen i ni ddarparu amgylchedd lle gall pawb ffynnu a chyflawni eu potensial. Dim ond os yw pobl yn gallu bod yn nhw eu hunain yn y gweithle y gall hyn ddigwydd.

Rydym yn cydnabod ac yn cefnogi amrywiaeth ac yn gwerthfawrogi'r cyfoeth a ddaw yn sgil cynhwysiant. Rydym yn cydnabod bod pobl yn dod o lawer o ddiwylliannau a chefnidiroedd amrywiol ac yn anelu at sicrhau bod pawb yn gallu cymryd rhan lawn yn ein cymuned. Rydym yn mynd ati i fynd i'r afael ag allgáu a hyrwyddo buddiannau pawb.

Rydym yn ymgysylltu ac yn partneru â sawl sefydliad i gefnogi ein hymrwymiad i adeiladu gweithlu amrywiol:

Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd

Rydym wedi ymrwmo i gefnogi a hyrwyddo amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant – drwy gronfeydd y Loteri Genedlaethol rydym yn eu dosbarthu ac fel cyflogwr.

Rydym bob amser yn ymdrechu i wneud addasiadau rhesymol i staff anabl.

Fel [cyflogwr Hyderus o ran Anabledd](#), rydym yn gwarantu y byddwn yn cyfweld pob ymgeisydd anabl sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol gofynnol ar gyfer pob swydd wag.

Gellir trafod a threfnu unrhyw ofynion arbennig cyn cyfweliad. Cysylltwch â'n tîm Adnoddau Dynol.

- Ffôn: 020 7591 6000
- Ffôn testun: 020 7591 6255
- E-bost: HR-Ops@heritagefund.org.uk

2027- Mewn 10 mlynedd

Nod [rhaglen 2027](#) yw hyrwyddo lleisiau a phrofiadau pobl o gymunedau dosbarth gweithiol wrth wneud grantiau. Ar hyn o bryd mae'r Gronfa yn cynnal rhaglen beilot gyda 2027.

Change 100

Mae'r Gronfa'n cynnig lleoliadau gwaith â thâl, datblygiad proffesiynol a chyfleoedd mentora i bobl ifanc anabl. Mewn partneriaeth â [Leonard Cheshire](#), nod y Gronfa yw dileu rhwystrau yn y gweithle.

Cymrodoriaeth Windsor

Mae'r Gronfa'n cynnig nifer o gyfleoedd profiad gwaith â thâl a chymorth cyflogadwyedd i unigolion o gymunedau sy'n cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd yng ngwaith y Gronfa Treftadaeth. Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio i roi'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i gyd-fynd â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i wneud cais am swyddi llawn amser yn y Gronfa Treftadaeth neu'r sector cysylltiedig ar ôl cwblhau'r rhaglen.

Grwpiau Rhwydwaith Gweithwyr

Ar hyn o bryd rydym yn cynnig amrywiaeth o grwpiau rhwydwaith gweithwyr cefnogol, gan gynnwys:

- Rhwydwaith Hil
- Rhwydwaith Rhywedd
- Rhwydwaith Anabledd
- Rhwydwaith Niwrowahanol
- Rhwydwaith LGBTQ+
- Rhwydwaith Croestoriadedd

Undebau Llafur

Ar hyn o bryd mae'r Gronfa'n cydnabod Undebau Llafur PCS ac FDA. Bydd rhagor o wybodaeth am bob Undeb Llafur ar gael wrth eu penodi, neu drwy eu gwefannau perthnasol.

Cyllidwyr ar gyfer Cynghrai Cydraddoldeb Hiliol

Rydym yn aelod o'r **Gynghrai Cyllidwyr ar gyfer Cydraddoldeb Hil**: FfRE, a gynnullwyd gan Equally Ours. Mae'r Gynghrai hon yn dod ag ystod eang o tua 30 neu fwy o gyllidwyr ac ymddiriedolaethau ledled y DU at ei gilydd i rannu arfer gorau a chynyddu uchelgais wrth fynd i'r afael â chyfiawnder hiliol ar draws cyllidwyr y DU.

Gr?p Rhwydwaith Awyr Agored Cenedlaethol i Bawb

Rydym yn aelodau o'r Gweithgor Awyr Agored Cenedlaethol i Bawb; rhwydwaith sy'n dwyn ynghyd y sefydliadau amgylcheddol a gwirfoddol sy'n darparu neu'n cydlynu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau i

- bobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig
- yr henoed
- y rhai ag anableddau iechyd corfforol neu
- feddyliol a phobl o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig

Y nod yw sicrhau cyfle i bawb i'r amgylchedd naturiol.

Cyfamod y Lluoedd Arfog

Addewid yw hwn yr ydym, gyda'n gilydd, yn cydnabod ac yn deall y dylai'r rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, a'u teuluoedd, gael eu trin â thegwch a pharch yn y cymunedau, yr economi a'r gymdeithas y maent yn eu gwasanaethu gyda'u bywydau. Rydym wedi ymrwymo i'r Cyfamod ac yn gweithio'n ddiwyd gyda phartneriaid cyflogaeth penodol y Lluoedd i hyrwyddo ein swyddi gwag fel cyflogwr sy'n croesawu'r Lluoedd Arfog.

Datganiad Cydraddoldeb y Gweithlu

Mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn hyrwyddo amrywiaeth y gweithlu ac yn cydnabod y gwerth a ddaw yn sgil hyn i'n hamgylchedd gwaith ac i'r gwasanaethau a ddarparwn i'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid. Rydym yn croesawu ac yn dathlu'r gwahaniaethau rhwng pobl, gan gydnabod cryfderau a manteision gweithlu a chymdeithas amrywiol, gynhwysol. Credwn y dylai treftadaeth fod yn hygyrch i bob rhan o gymdeithas – a chredwn yn gyfatebol y dylai ein gweithlu ein hunain hefyd adlewyrchu pob rhan o gymdeithas.

Ein hymrwymiad yw adeiladu cymuned gweithlu werthfawr ac amrywiol, sy'n adlewyrchu amrywiaeth y cyhoedd yn y DU yn fwy, drwy hyrwyddo cyfle cyfartal ac amrywiaeth ym mhob agwedd ar gyflogaeth. Mae hyn yn gwella effeithiolrwydd a hyblygrwydd ein gweithlu. Nid ydym yn gwahaniaethu. Rydym yn gwneud apwyntiadau yn seiliedig ar alluoedd a sgiliau a dim byd arall – ond ar yr un pryd rydym wedi ymrwymo'n weithredol i wella amrywiaeth ein sefydliad i adlewyrchu'r cymunedau rydym yn gweithio ynddynt.

Rydym yn addo darparu amgylchedd gwaith a dysgu cynhwysol i'n pobl sy'n blaenoriaethu tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ogystal ag urddas a pharch i bawb. Byddwn yn creu gweithle lle nad yw bygythiadau, gwahaniaethu, aflonyddu, bwlio ac erledigaeth yn cael eu goddef a'u hatal a'u gwrthwynebu.

Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob agwedd ar ein gweithgareddau drwy ddatblygu polisïau, gweithdrefnau, rhaglenni hyfforddi a datblygu teg a chyfartal, sy'n cael eu cymhwyso'n gyson a'u monitro'n rheolaidd. Yn amodol ar ddarpariaethau statudol, ni chaiff neb sy'n gweithio yn y Gronfa Treftadaeth ei drin yn llai ffafriol oherwydd hil (gan gynnwys ethnigrwydd, lliw, tarddiad cenedlaethol/ethnig a chenedligrwydd), rhywedd, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred/diffyg cred, ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, mamolaeth/tadolaeth neu feichiogrwydd, cred wleidyddol, statws cymdeithasol neu statws gyrfa.

Bydd y Gronfa Treftadaeth yn bodloni'r holl rwymedigaethau statudol o dan ddeddfwriaeth berthnasol a lle bo'n briodol yn rhagweld gofynion cyfreithiol yn y dyfodol. Bydd hyn yn cael ei lywio gan:

- [Deddf Cydraddoldeb 2010](#) ac is-ddeddfwriaeth gysylltiedig
- [Deddf Cydnabod Rhywedd 2004](#)
- [Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998](#)
- [Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2011](#)